Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Our Ref: RJ/ AD

Direct line: (029) 2078 7837
Email: ann-marie.donaghy@wales.nhs.uk

25 May 2010

Dear Colleagues,

Re: Publication of 'Antenatal Screening Wales Revised Policy, Standards and Protocols to Support the Provision of Antenatal Screening in Wales'

Please find enclosed a copy the of Publication of 'Antenatal Screening Wales Revised Policy, Standards and Protocols to Support the Provision of Antenatal Screening in Wales' which has been published on 25th May 2010.

Antenatal Screening Wales (ASW) is a Managed Clinical Network established by the Welsh Assembly Government to improve the standard of antenatal screening offered to women in Wales and enable equity of antenatal screening service provision.

Antenatal screening looks at a number of conditions and consequently ASW collaborates with a large number of stakeholders. These stakeholders include health professional groups, experts in specific tests and conditions, service providers and voluntary sector organisations. The revised Standards and Protocols have been the subject to consultation with ASW stakeholders and are a thorough revision and updating of the Antenatal Screening Wales Standards and Protocols published in December 2005.

The document recommends small but important changes to many aspects of the antenatal screening programme in Wales. They build on the improvements achieved by the maternity, laboratory and genetics services in Wales since the 2005 publication and a particular focus in this document is the governance of the antenatal screening programme. The changes aim to build on previous success to further improve the quality of service access, timeliness, risk management, clinical effectiveness, and service audit.

The consultation responses received by ASW have been used not only to refine and improve the initial consultation document but also to influence projects that ASW is taking forwards this year.

Yours sincerely

Rosemary Johnson
All Wales Programme Coordinator

Antenatal Screening Wales 18 Cathedral Road, Cardiff CF11 9LH
Telephone 029 2078 7837 Facsimile 029 2078 7890
Sgrinio Cyn Geni Cymru 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9LH
Ffôn 029 2078 7837 Ffacs 029 2078 7890

Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Ein Cyf: RJ/ AD

Llinell uniongyrchol: (029) 2078 7837
E-bost: ann-marie.donaghy@wales.nhs.uk

25 Mai 2010

Annwyl Gydweithiwr

Cyhoeddi 'Polisïau, Safonau a Phrotocolau Diwygiedig Sgrinio Cyn Geni Cymru i Gynorthwyo'r Gwaith o Ddarparu Sgrinio Cyn-geni yng Nghymru'

Rwy'n anfon copi atoch o'r cyhoeddiad 'Polisïau, Safonau a Phrotocolau Diwygiedig Sgrinio Cyn Geni Cymru i Gynorthwyo'r Gwaith o Ddarparu Sgrinio Cyn-geni yng Nghymru' a gafodd ei gyhoeddi ar 25 Mai 2010.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n Rhwydwaith Clinigol a Reolir. Cafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella safonau'r sgrinio cyn-geni sydd ar gael i fenywod Cymru ac i ofalu bod pawb yn cael gwasanaethau sgrinio cyn-geni teg a chyfartal.

Mae sgrinio cyn-geni'n rhoi sylw i nifer o gyflyrau ac, oherwydd hynny, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n gweithio gyda nifer fawr o randdeiliaid. Yn eu plith y mae grwpiau o weithwyr proffesiynol y sector iechyd, pobl sy'n arbenigo ar brofion a chyflyrau penodol, cyrff sy'n darparu gwasanaethau, a chyrff y sector gwirfoddol. Wrth greu'r Safonau a'r Protocolau diwygiedig, aeth Sgrinio Cyn Geni Cymru ati i ymgynghori â'i randdeiliaid ac i ddiwygio ac adolygu'n drwyadl y Safonau a'r Protocolau blaenorol a gafodd eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2005.

Mae'r ddogfen yn argymell newidiadau sy'n fân ond yn bwysig i lawer o agweddau ar y rhaglen sgrinio cyn-geni yng Nghymru. Maen nhw'n gam ymlaen o'r gwelliannau mae'r gwasanaethau mamolaeth, labordai a geneteg yng Nghymru wedi llwyddo i'w gwneud ers cyhoeddi dogfen 2005. Ac mae pwyslais arbennig yn y ddogfen ddiwygiedig ar lywodraethu'r rhaglen sgrinio cyn-geni. Nod y newidiadau yw ategu'r llwyddiannau i wella mwy fyth ar allu menywod i fanteisio ar y gwasanaeth ac i wneud hynny'n brydlon, rheoli'r risgiau, effeithiolrwydd clinigol, ac archwilio'r gwasanaeth.

Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori wedi cael eu defnyddio nid yn unig i ddiwygio a gwella'r ddogfen ymgynghori wreiddiol, ond hefyd i ddylanwadu ar brojectau mae'r rhaglen yn eu rhoi ar waith eleni.

Yn gywir

Rosemary Johnson
Cydlynydd Rhaglen

Antenatal Screening Wales 18 Cathedral Road, Cardiff CF11 9LH
Telephone 029 2078 7837 Facsimile 029 2078 7890
Sgrinio Cyn Geni Cymru 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9LH
Ffôn 029 2078 7837 Ffacs 029 2078 7890